# Casgliad

Mae consensws eang fod gwasanaethau saith diwrnod, pan y'u cyflwynir yn briodol, yn gwella gofal cleifion, yn gwneud y defnydd gorau o adnoddau, yn cynyddu effeithiolrwydd ac yn arwain at well canlyniadau clinigol.[5] Mewn rhai cyflyrau megis strôc, mae canllawiau cenedlaethol yn argymell bod asesiad amlddisgyblaeth ac adsefydlu dwys yn dechrau cyn gynted ag sydd modd ac mae hyn yn golygu fod angen darparu gwasanaethau ffisiotherapi dyddiol.[14]

Mewn cyflyrau eraill mae'r sbardunau ar gyfer datblygu gwasanaethau ffisiotherapi saith diwrnod yn canolbwyntio ar alluogi rhyddhau amserol a diogel cyn gynted ag y dangosir yn glinigol, gan osgoi oedi neu ymyrryd ar ofal cleifion, gwella canlyniadau adsefydlu a chyfoethogi profiad cleifion. Ystyrir bod y model gwasanaeth yma'n allweddol i ostwng amrywiadau mewn llwyth gwaith ac yn arbennig y brig bore Llun mewn galw.[4]

Ni ddylid gweld ffisiotherapi ar ei ben ei hun ond fel rhan o lwybr gwasanaeth saith diwrnod integredig.[14] Ar hyn o bryd caiff y rhan fwyaf o wasanaethau saith diwrnod eu darparu mewn ysbyty ond er mwyn sicrhau gofal cynhwysfawr saith diwrnod, dylai gwasanaethau cynnwys darpariaeth sylfaenol, cymunedol a gofal cymdeithasol.[2] Mae angen trin y cysylltiad rhwng gwasanaethau ffisiotherapi mewn ysbyty a'r gymuned er mwyn sicrhau parhad gofal, hwyluso rhyddhau ac osgoi aildderbyn diangen.

Yn y rhan fwyaf o'r enghreifftiau a nodir uchod mae ail-ddylunio gwasanaeth wedi cynnwys diwygio cyfuniad sgiliau ac ymgynghori gyda staff i wella cyflenwi gwasanaeth a chydbwysedd gwaith/staff i'r eithaf. Mae'r pryderon cyffredin yn canolbwyntio ar effaith gwasanaethau saith diwrnod ar ddarpariaeth ffisiotherapi Llun-Gwener ac mae'n hanfodol y caiff newid gwasanaeth adnoddau digonol i sicrhau cysondeb gofal saith diwrnod yr wythnos. Mae archwiliad a gwerthusiad gofalus a parhaus o ganlyniadau unigol ac arbedion cost yn hanfodol i gael data cadarn i gyfiawnhau parhau i gomisiynu ac ehangu gwasanaeth.

CHARTERED SOCIETY
OF PHYSIOTHERAPY

CYMDEITHAS SIARTREDIG
FFISIOTHERAPI


## Diolchiadau

Hoffai'r CSP ddiolch i'r bobl ddilynol am eu mewnbwn: Rhoda Allison, Ymddiriedolaeth Iechyd a Gofal Torbay a De Dyfnaint, Christine Divers, Ysbyty Genedlaethol Golden Jubilee, Jacky Jones, Ymddiriedolaeth Sylfaen GIG Guys a St Thomas, Karen Renforth, Ymddiriedolaeth Sylfaen GIG Gofal Iechyd Northumbria, Mary Ross, Ymddiriedolaeth GIG Sefydliad Heart of England, Caroline Thomas, Ymddiriedolaeth Iechyd a Gofal Torbay a De Dyfnaint.



1. NHS Improving Quality. Seven day services. NHS Improving Quality
URL: http://www.nhsiq.nhs.uk/7860.aspx

2. NHS England. Nhs services, seven days a week forum summary of initial findings. NHS England 2013. URL: http://www.england.nhs.uk/ourwork/qual-clin-lead/7-day-week/

3. Holdsworth LK, Douglas L, Hunter E, et al. Social media: Raising the profile of ahps. British Journal of Healthcare Management. 2013;19(2):85-92.

4. NHS Improving Quality. Nhs services open seven days a week : Every day counts. NHS Improving Quality 2013. URL: http://www.nhsiq.nhs.uk/8763.aspx

5. Academy of Medical Royal Colleges. Seven day consultant present care: Implementation considerations. Llundain: Academy of Medical Royal Colleges; 2013.
URL: http://www.aomrc.org.uk/projects/seven.html

6. Crane J, Delany C. Physiotherapists in emergency departments: Responsibilities, accountability and education. Physiotherapy. 2013 Jun;99(2):95-100.
URL: http://www.csp.org.uk/professional-union/csp-publications

7. AgeUK. Nearly 2 million nhs days lost from delayed discharge. AgeUK 2014.
URL: http://www.ageuk.org.uk/latest-news/nearly-2m-nhs-days-lost-delayed-discharge

8. Cymdeithas Siartredig Ffisiotherapi. Seven day physiotherapy services: Meeting the challenge. Llundain: Cymdeithas Siartredig Ffisiotherapi; 2014.
URL: http://www.csp.org.uk/publications/seven-day-physiotherapy-services-meeting-challenge

9. Cymdeithas Siartredig Ffisiotherapi. Clinical supervision: A brief overview. Cymdeithas Siartredig Ffisiotherapi2013.
URL: https://v3.pebblepad.co.uk/v3portfolio/csp/Asset/View/6jqbh3GzhGWrfMMd9zc4t

s3Mkc

10. NHS Improvement. Equality for all. Delivering safe care - seven days a week. Leicester: NHS Improvement; 2012.
URL: http://www.nhsiq.nhs.uk/resource-search/publications/nhs-imp-seven-days.aspx

11. Royal College of Physicians. Ssnap (sentinel stroke national audit programme). Royal College of Physicians, 2012. URL: https://www.rcplondon.ac.uk/projects/ssnapclinical-audit

12. Enhanced Recovery Partnership. Fulfilling the potential: A better journey for patients and a better deal for the nhs Leicester: NHS Improvement 2012.
URL: http://www.nhsiq.nhs.uk/8228.aspx

13. Divers C, Shirley M. Seven day rehabilitation service at golden jubilee national hospital [Cyflwyniad PowerPoint]. 2014. URL: http://www.qihub.scot.nhs.uk/media/664486/quest%20-%20flow%20-%20events%20-%20national%20-%20autumn%20-%20presentation%20-%20break%20out%20e%20-%20open%20and%20close.pdf[Cyrchwyd 20 Ionawr 2015]

14. National Institute for Health and Clinical Excellence (NICE). Stroke rehabilitation. National Institute for Health and Clinical Excellence 2014.
URL: www.pathways.nice.org.uk/pathways/stroke/stroke-rehabilitation
[Cyrchwyd: 20 Ionawr 2015]





**Mwy o wybodaeth!**

Uned Trin Ymholiadau CSP

Ffôn: **0207 306 6666**
E-bost: **enquiries@csp.org.uk**
Gwefan: **www.csp.org.uk**


POSITIVE ABOUT DISABLED PEOPLE


001210CYM P&D 05/15 3k

# Ffisiotherapi ar waith

## Gwasanaethau 7 Diwrnod



# FFISIOTHERAPI

## MAE GAN STAFF FFISIOTHERAPI RÔL ALLWEDDOL MEWN DARPARU GWASANAETHAU SAITH DIWRNOD ANSAWDD UCHEL, CYSON, AMSEROL A HYGYRCH

### Cyflwyniad

Mae pobl angen gwasanaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol 24 awr y dydd, saith diwrnod yr wythnos.[1] Mae diffyg cyfredol rhai gwasanaethau clinigol a digon o staff hŷn i wneud penderfyniadau ar benwythnosau yn golygu yr amherir weithiau ar ansawdd gofal gan arwain at oedi, profiad gwael i'r cleifion a mwy o risg o gymhlethdodau a marwoldeb yn ystod y cyfnodau hyn.[2] Mae gwasanaethau saith diwrnod yn cynnwys ffisiotherapi yn rhoi'r gofal a'r driniaeth mae cleifion eu hangen pa bynnag ddiwrnod o'r wythnos yw hi. Maent hefyd yn hwyluso rhyddhau diogel ar benwythnosau, gan sicrhau'r canlyniadau clinigol a'r defnydd adnoddau gorau posibl. [3]

Mae'r GIG yn ymroddedig i ddarparu gwasanaethau ansawdd uchel a modelau newydd o ofal sy'n mynd i'r afael yn well ag anghenion cleifion ac yn gwella canlyniadau clinigol a phrofiad cleifion y tu allan i'r wythnos waith arferol.

Mae angen i wasanaethau saith diwrnod ddod yn arferol yn y rhan fwyaf o feysydd gofal cymunedol ac eilaidd lle mae tystiolaeth y bydd hyn yn gwella canlyniadau a phrofiad cleifion.[4] Mae'r rhan fwyaf o arbenigeddau clinigol yn golygu bod angen mynediad i ffisiotherapi i alluogi cleifion i gael adferiad ac ailsefydlu llwyddiannus a dylai ffisiotherapi pwrpasol i ddiwallu anghenion cleifion fod yn rhan gyfannol o ddarpariaeth gwasanaethau saith diwrnod.[5]

### Gwasanaethau Saith Diwrnod yn cynyddu ansawdd gofal

Mae ymarferwyr ffisiotherapi argyfwng a thimau asesiad a thriniaeth dan arweiniad therapi yn gweithio saith diwrnod yr wythnos mewn adrannau Damwain ac Argyfwng ac unedau derbyn meddygol. Rhoddant wybodaeth a sgiliau ychwanegol i gefnogi neu gymryd lle staff meddygol sy'n trin cleifion gyda phroblemau cyhyroysgerbydol gan symleiddio gofal ac osgoi derbyn i ysbyty yn ddiangen.[6] Fodd bynnag ni ddylid gweld ffisiotherapi fel bod ar wahân ac mae'n rhaid i ail-ddylunio'r llwybr gynnwys yr holl broffesiynau sydd eu hangen i ddarparu gwasanaeth integredig gan osgoi oedi, ailadrodd ac aneffeithiolrwydd. I osgoi oedi wrth ryddhau o ysbyty yn arbennig ar gyfer pobl hŷn, dylai gwasanaethau saith diwrnod gynnwys gwasanaethau cymunedol a gofal cymdeithasol; er enghraifft, fferyllwyr cymunedol, nyrsio ac asiantaethau cefnogi. [7]




### Adnoddau ar gyfer Gwasanaethau Saith Diwrnod

Dylai gwasanaethau saith diwrnod gael adnoddau a chyllid digonoll i alluogi darparu gofal o'r un ansawdd bob diwrnod o'r wythnos tra'n sicrhau nad yw darpariaeth ychwanegol yn tanseilio'r sefydliad ffisiotherapi dydd Llun i ddydd Gwener presennol. Dylai ail-ddylunio gwasanaeth:

- Ddefnyddio dulliau blaengar i gymysgu sgiliau (er enghraifft ehangu rôl gweithwyr cymorth) tra'n rhoi ystyriaeth i wybodaeth a sgiliau uwch yn galluogi clinigwyr uwch i weithio'n gynhyrchiol yn eu maes arbenigedd, gan sicrhau cynnal safonau clinigol a diogelwch.[8]
- Sicrhau fod nifer ddigonol o staff ar gael i gynyddu diogelwch cleifion i'r eithaf a rhoi goruchwyliaeth glinigol briodol i staff llai profiadol.[9]
- Ystyried cydbwysedd gwaith/bywyd staff gydag ymgynghoriad ar newidiadau arfaethedig i batrymau gwaith. Dylid ymgynghori gyda staff a'r undebau llafur sy'n eu cynrychioli.[8]

# Enghreifftiau o wasanaethau




## Gostwng hyd cyfartalog arhosiad gan ddau ddiwrnod

**Ysbyty Newton Abbott, Ymddiriedolaeth Gofal Torbay a De Dyfnaint.**[10] Roedd ymgynghoriad gyda defnyddwyr gwasanaeth yr Uned Adsefydlu Strôc yn allweddol wrth ddatblygu cynllun yn canoli ar gleifion i ymestyn gwasanaethau therapi strôc o bump i saith diwrnod o fewn adnoddau presennol. Cafodd cyllid ei ailddyrannu i greu tri gweithiwr cymorth adsefydlu newydd band 3 i weithio dros saith diwrnod, gyda chefnogaeth staff cymwys o'r ysbyty a gwasanaethau cymunedol. Arweiniodd trafodaeth gyda staff nyrsio at weithredu strategaeth cydweithio. Mae therapyddion yn cychwyn yn gynharach ac yn gweithio wrth ochr nyrsys yn defnyddio dull therapiwtig a galluogi i baratoi cleifion ar gyfer y dydd. Roedd datblygiadau eraill yn cynnwys adolygu gwaith papur ac archwiliad gwasanaeth a gwerthusiad yn defnyddio data presennol fel llinell sylfaen. Rhannwyd y gwaith rhwng gwaith ward (adsefydlu strôc) ac adsefydlu niwrolegol cymunedol (unrhyw gyflyrau niwrolegol) yn dibynnu ar y blaenoriaethau a ddynodwyd gan y staff.

Ers cyflwyno'r gwasanaeth yn 2010 mae cyfnod cyfartalog arhosiad wedi gostwng gan ddau ddiwrnod. Caiff 100% o'r cleifion eu hasesu'n llawn a chytunir ar nodau adsefydlu o fewn 24 awr o'u derbyn gan gydymffurfio gyda safonau ansawdd NICE. Mae'r ethos adsefydlu o fewn yr uned wedi gwella a chafwyd adborth cadarnhaol gan gleifion a gofalwyr. Mae cynnwys staff cymunedol wedi cynyddu adnoddau ar y penwythnos, gwella effeithiolrwydd a symleiddio trosglwyddo cleifion i osodiadau cymunedol. Er na ellir ei briodoli'n llwyr i weithio saith diwrnod, mae data SSNAP (Rhaglen Archwilio Genedlaethol Strôc Sentinel) wedi dangos gwelliant sylweddol yn y misoedd diweddar ac mae'r uned strôc yn awr yn cael gradd 'A'.[11]




## Adsefydlu mwy dwys yn arwain at wella gweithio ac yn cyfrannu at ostwng amser ar gymorth anadlu

**Ymddiriedolaeth Sylfaen GIG Guys a St Thomas.**[10] Yn 2010 cyflwynwyd gwasanaeth ffisiotherapi anadlol saith diwrnod i roi triniaeth arbenigol i gleifion ar wardiau gofal critical (ICU), llaw-driniaeth a meddygol. Mae'r gwasanaeth cynyddol hwn, a groesawyd gan ddefnyddwyr gwasanaeth, yn rhoi mynediad i ffisiotherapi anadlol arbenigol cyson a chynhwysfawr bob awr o'r dydd. Arweiniodd adsefydlu dwysach at wella gweithio a chyfrannu at ostwng yr amser ar gymorth anadlu a gostyngiad o 2 ddiwrnod yng nghyfnod arhosiad ar wardiau meddygol a llawdriniaeth.

Yn ystod ei flwyddyn gyntaf, arweiniodd y model newydd o weithio at arbedion sylweddol i'r Ymddiriedolaeth, a sicrhawyd drwy ostwng costau salwch staff (£45,000), cyflogi staff dros dro (£52,000) a thaliadau tu allan i oriau (£45,000); ac arbedwyd £60,000 arall drwy adolygu cymysgedd sgiliau. Cafodd y model gwasanaeth ei sefydlu i ddechrau gyda buddsoddiad o £500,000 i redeg am gyfnod o 6 mis; mae'n parhau i gael ei gomisiynu ac mae datblygiadau'n awr yn canolbwyntio ar ymestyn gwasanaethau saith diwrnod i bob maes ffisiotherapi fel sy'n briodol. Yr her fu cael digon o gyllid fel y caiff gofal cleifion ei wella ac nad yw lledaenu adnoddau 5 diwrnod dros 7 diwrnod yn cael effaith niweidiol




## Rhyddhau 426 o ddyddiau gwely llawdriniaeth cardiothorasig gan ostwng amserau aros am lawdriniaeth ddewisol

**Ymddiriedolaeth Sylfaen GIG Ysbyty De Tees.**[4] Fel rhan integrol o'r Llwybr Adferiad Gwell[12], mae timau ffisiotherapi'n darparu gwasanaeth ffisiotherapi saith diwrnod cyfartal ar draws pob arbenigedd llawdriniaeth gan alluogi cleifion i gael adferiad cyflymach. Mae ymarferwyr ffisiotherapi cynorthwyol Band 4 yn darparu adsefydlu ar gyfer pawb sy'n derbyn llawdriniaeth ddewisol ac mae gwasanaeth ffisiotherapi gyda'r nos ar gyfer unedau gofal dewisol a dibyniaeth uchel yn cyflawni uchafbwyntiau galw clinigol. Mae gwasanaeth cymunedol aml-ddisgyblaeth Ymateb Cyflym saith diwrnod yn hwyluso rhyddhau ac yn cefnogi adsefydlu parhaus.

Mae cleifion yn derbyn adsefydlu cynharach a gostyngwyd cyfnod cyfartalog arhosiad cleifion preswyl gan ddau ddiwrnod. Cafodd 426 o ddyddiau llawdriniaeth cardiothorasig eu rhyddhau gan ostwng amserau aros am lawdriniaeth ddewisol. Mae boddhad cleifion gyda'r gwasanaeth yn uchel. Mae cyfuniad sgiliau uwch wedi rhyddhau staff cymwys i drin cleifion gydag anghenion mwy cymhleth.

## Mireinio rotas a dyddiau gorffwys drwy ymgynghori a gwerthuso rheolaidd

**Ymddiriedolaeth Sylfaen GIG Heart of England.**[10] Ers mis Ebrill 2011 mae'r Gyfarwyddiaeth Therapi (Ffisio, Therapi Galwedigaethol a Therapi Lleferydd) wedi darparu gwasanaethau saith diwrnod ar draws tri ysbyty ar gyfer cleifion preswyl a rhai sy'n mynychu adran Damwain ac Argyfwng. Mae'r gwasanaeth penwythnos, a gyflwynir gan 45-50 o therapyddion (tua 25% o'r gweithlu arferol) ar draws y tri safle, yn hwyluso cynllunio rhyddhau dyddiol drwy osgoi oedi oherwydd anghenion therapi, hybu triniaeth ac adsefydlu a gwella diogelwch clinigol drwy sicrhau fod staff uwch ar gael bob amser. Darperir ffisiotherapi a therapi galwedigaethol rhwng 8am a 4pm ar ddyddiau Sadwrn a dyddiau Sul ym mhob ward ysbyty ac adrannau Damwain ac Argyfwng ac Unedau Asesu Meddygol. I gynyddu boddhad staff gyda'r model newydd, cafodd rotas a dyddiau gorffwys eu mireinio drwy ymgynghori a gwerthusiad rheolaidd, a chânt eu paratoi chwe mis ymlaen llaw lle'n bosibl. Caiff y gwasanaeth penwythnos a llenwi dyddiau wythnos ei gefnogi gan staff banc therapi'r Ymddiriedolaeth.

Soniodd defnyddwyr gwasanaeth am lefelau uchel o fodlonrwydd gyda'r gwasanaeth therapi penwythnos, ac mae cefnogaeth staff i wasanaethau saith diwrnod wedi cynyddu o 72% (2011/12) i 87% (2012/13). Yn 2013/14, fe wnaeth therapyddion Damwain ac Argyfwng/Unedau Asesu Meddygol osgoi 40-50 derbyniad newydd bob penwythnos a chynyddodd rhyddhau penwythnos oherwydd therapi i fwy na 60. Caiff pob claf strôc newydd eu hasesu o fewn 24 awr o'u derbyn. Gwelodd y gwasanaeth penwythnos gyfanswm o 5,030 o gleifion preswyl newydd a darparwyd 21,037 triniaeth ddilynol i gleifion preswyl yn 2013/14. Nid yw costau wedi cynyddu ers cyflwyno'r gwasanaeth saith diwrnod. Fodd bynnag, ni chaiff cost gwasanaethau penwythnos ei gynnwys yn y gyllideb therapi ac mae pwysau cost o £350,000 y flwyddyn yn parhau.

## Gwastatau llwyth gwaith ar draws saith diwrnod

**Ymddiriedolaeth Sylfaen GIG Gofal Iechyd Northumbria.**[10] Nod y prosiect gweithio saith diwrnod oedd darparu asesiad ac adsefydlu amserol i'r holl gleifion preswyl mewn tri ysbyty o fewn yr Ymddiriedolaeth yn defnyddio egwyddorion adferiad gwell.[12] Mae'r model newydd yn cynyddu potensial adsefydlu i'r eithaf ac yn sicrhau ei fod yn parhau heb ymyriad am saith diwrnod yr wythnos. Mae rhai staff yn gweithio ar draws gosodiadau aciwt a chymunedol gan wella parhad gofal a hwyluso rhyddhau cynnar a diogel.

Cafodd y model adborth ffafriol gan ddefnyddwyr gwasanaeth a'r tîm amlddisgyblaeth sy'n gwerthfawrogi'r cynnydd mewn mewnbwn ffisiotherapi ar benwythnosau. Cafodd y llwyth gwaith ei wastatau ar draws saith diwrnod a llaciwyd penllanw galw ar ddyddiau Llun. Gan ddefnyddio data archwilio cadarn, mae'r gwasanaeth wedi parhau i ddatblygu ac mae'n awr yn cynnwys swyddi penwythnos (22.5 awr yr wythnos Gwener/Sadwrn/Sul) ar gyfer y gwasanaeth orthopaedig; model sydd hefyd yn cael ei dreialu mewn gofal yr henoed. Gweithredwyd cylch chwe mis ar gyfer gofal anadlol aciwt (Mercher-Sul neu Sadwrn-Mercher) sy'n cynyddu staffio ar y penwythnos, yn ogystal â gwasanaeth penwythnos a ddatblygwyd ar gyfer cleifion preswyl mamolaeth/gynaecoleg a gaiff ei staffio gan staff cymorth band 3 a 4. Mae ymrwymiadau penwythnos o 1:6 yn dderbyniol i staff. Mae therapyddion galwedigaethol yn awr yn gweithio saith diwrnod yr wythnos ac mae cynlluniau i Therapyddion Iaith a Lleferydd weithio chwe diwrnod yr wythnos yn y gwasanaeth strôc.

## Gwobr Rhagoriaeth mewn Ansawdd Gwasanaeth 2014 am agwedd 'gallu gwneud' y tîm

**Ysbyty Cenedlaethol Golden Jubilee (GJNH) yr Alban.**[12] Fel rhan o'r model adferiad gwell ledled yr Alban, cyflwynodd tîm therapi (ffisiotherapyddion, therapyddion galwedigaethol a chynorthwywyr adsefydlu) GJNH fodel gwaith saith diwrnod yn Ionawr 2014 ar gyfer llawdriniaeth orthopaedig ddewisol (clun a glin) a gwasanaethau cardiothorasig gyda'r nod o wella mynediad i therapi a darparu triniaeth ansawdd uchel pa bynnag ddiwrnod y cynhaliwyd y llawdriniaeth.[13]

Roedd y sbardunau dros newid yn cynnwys rhyddhad oedi therapi, profiad cleifion a phryderon am ansawdd gwasanaeth ac amrywiaeth mewn llwyth gwaith. Defnyddiwyd methodoleg PDSA (Cynllunio, Gwneud, Astudio, Gweithredu) i gyfateb capasiti gyda galw a thrafodod ymgynghoriad gyda staff bryderon am y patrwm gweithio newydd. Cymerodd ddwy flynedd i'w weithredu a dechreuodd y gwasanaeth newydd, a ddarparodd gynnydd mewn oriau therapi o 50% ar ddyddiau Sadwrn a 400% ar ddyddiau Sul, yn Ionawr 2014.

Dengys llwyddiannau cynnar (hyd fis Gorffennaf 2014) y cyflwynir gwasanaeth therapi cyson dros saith diwrnod gan arwain at ryddhad orthopaedig cynharach (tri diwrnod yn dilyn llawdriniaeth ar gyfartaledd) a defnydd mwy effeithlon o welyau ac adnoddau orthopaedig (gostyngwyd hyd arhosiad gan un diwrnod ar gyfartaledd). Cafodd 200 o gleifion cardiothorasig ychwanegol eu trin bob mis a chafodd 80% o gleifion cardiothorasig eu rhyddhau o therapi bedwar diwrnod ar ôl triniaeth arferol pa bynnag ddiwrnod y cynhaliwyd y llawdriniaeth.

Enillodd y tîm adsefydlu wobr am 'Ragoriaeth mewn ansawdd gwasanaeth' yn 2014 am eu hagwedd 'gallu gwneud' i oresgyn heriau i gyflwyno a darparu gwasanaethau saith diwrnod.[13]